Coleg Powys

# POLISI IECHYD A DIOGELWCH

**Mis Medi 2007**

# DATGANIAD O FWRIAD

Mae Coleg Powys yn ymrwymedig i weithredu’r safonau uchaf posibl o iechyd, diogelwch a lles. Felly mae’n derbyn yr oblygiadau a orfodir gan yr holl ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch perthnasol er mwyn sicrhau cyn belled ag sy’n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles gweithwyr, myfyrwyr, ymwelwyr a chontractwyr.

Bydd Coleg Powys yn gweithredu’r holl gamau ymarferol a rhesymol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles yr unigolyn yn unol ag amgylchiadau neilltuol ei raglen ddysgu.

Cyflawnir hyn trwy:

Darparu a chynnal adeiladau, peiriannau, offer a systemau gwaith, sydd yn ddiogel, a heb risg i iechyd.

Sicrhau diogelwch ac absenoldeb o risgiau i iechyd mewn cysylltiad â’r defnydd, trafod, y trosglwyddiad a’r storio o nwyddau a sylweddau.

Sicrhau bod pob safle gwaith yn ddiogel, heb risg i iechyd a bod mynedfeydd ac allanfeydd o’r safleoedd gwaith yn ddiogel a heb risgiau.

Darparu a chynnal amgylchedd gwaith sy’n ddiogel gyda chyfleusterau a threfniadau digonol mewn bodolaeth ar gyfer lles staff, myfyrwyr ac ymwelwyr.

Darparu gwybodaeth, cyfarwyddiadau, goruchwyliaeth a hyfforddiant fel bo’r angen i sicrhau iechyd a diogelwch gweithwyr, myfyrwyr ymwelwyr a chontractwyr.

Darparu neu wneud y trefniadau angenrheidiol i sicrhau bod cyngor technegol cymwys ar gael ar faterion iechyd, diogelwch a lles pan fydd angen cyngor.

Cadw cofnodion cywir, monitro, asesu ac archwilio perfformiad er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol o’r polisi a’r defnydd o’r gweithdrefnau cywir.

Sefydlu a chefnogi trefniadau i ymgynghori a gweithwyr a myfyrwyr mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch.

Meithrin cydweithrediad yr holl weithwyr, myfyrwyr ac ymwelwyr i fabwysiadu arferion gwaith diogel ac i riportio peryglon posib.

Mae Coleg Powys yn ymrwymedig i sicrhau gwelliannau parhaus ym mhob agwedd o iechyd a diogelwch ac yn ystyried iechyd a diogelwch fel mater o brif bwys i’r Gorfforaeth.

Mr. John Stephenson  Adolygwyd ac arwyddwyd fel dogfen gywir ar:
Pennaeth

**TREFNIADAETH**

Mae gan **Goleg Powys,** sy’n gorfforaeth o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, gyfrifoldebau cyflogwr a rheolwr adeiladau.

Mae pump lefel o gyfrifoldeb yng nghlwm wrth weithrediad y polisi. Mae gan y canlynol gyfrifoldeb dros ei weithredu:

Y Bwrdd Corfforaethol
Y Pennaeth
Penaethiaid Cynorthwyol, Penaethiaid Ysgolion a Goruchwylwyr eraill
Yr Holl Staff
Myfyrwyr

Medr pawb gael cyngor oddi wrth Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch y coleg. Gweler y siart rediad sydd wedi’i atodi i’r polisi.

Bydd y Coleg yn ymdrechu i ddarparu adnoddau digonol, cyngor a hyfforddiant i sicrhau fod gweithrediad y polisi yn effeithiol.

Bydd y Coleg yn sefydlu ac yn cefnogi Gweithgorau Iechyd a Diogelwch er mwyn meithrin cydweithrediad, cynorthwyo ymgynghoriad a gwneud argymhellion i wella amgylchiadau sy’n berthnasol i iechyd a diogelwch.

Bydd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn cyflawni’r archwiliad i’r polisi ac yn cyflwyno adroddiadau i’r gweithgorau iechyd a Diogelwch neu’r Pennaeth fel bo’n briodol.

Bydd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn trefnu archwiliad allanol o’r polisi fel bo angen.

**Y Pennaeth**

Mae gan y Pennaeth gyfrifoldeb gweithredol i sicrhau gweithrediad o’r polisi.

Bydd y Pennaeth yn dynodi Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch.

**Penaethiaid Cynorthwyol, Penaethiaid Ysgolion a staff goruchwyliol arall yn:**

Sicrhau bod y rheini maent yn gyfrifol amdanynt yn deall eu cyfrifoldebau ac yn cyflawni eu dyletswyddau.

Sicrhau bod yr holl wybodaeth sy’n berthnasol i iechyd a diogelwch yn cael ei ddwyn i sylw’r staff maent yn rheoli.

Arolygu pob ardal er mwyn dirnad a yw’r polisi iechyd a diogelwch yn effeithiol, bod risgiau i iechyd yn cael eu hosgoi a bod cydymffurfio a’r mesurau rheoli priodol yn digwydd .

Riportio unrhyw bryderon i'r Rheolwr Llinell, a fydd efallai yn cyfeirio'r mater at yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch a gweithredu'n unol ag argymhellion a chyngor ynglyn ag unrhyw ymarferiadau gwaith a ystyrir yn anniogel.

Ymgynghori a'r Rheolwr Llinell ar unrhyw amheuon ynglyn ag iechyd a diogelwch.

Sicrhau bod darpariaeth drawiadol a chyfleusterau storio digonol ar gyfer sylweddau peryglus.

Sicrhau bod asesiad o risg trawiadol wedi'i gwblhau cyn gweithio gyda sylweddau peryglus neu /a phrosesau gollyngiad.

Sicrhau'r ddarpariaeth a'r defnydd o unrhyw ddillad ac offer amddiffynnol angenrheidiol.

Sicrhau na fydd aelodau o staff yn defnyddio offer os na fyddant wedi derbyn cyfarwyddiadau penodol a hyfforddiant mewn defnyddio'r fath offer.

Sicrhau bod yr holl offer yn cael ei gynnal, ei fod mewn cyflwr da, a chofnod o'r holl waith cynnal yn cael ei gadw.

Sicrhau bod yr holl eitemau trydanol cludadwy yn cael ei arolygu a'u profi'n rheolaidd ar holl waith yn cael ei gofnodi ai gadw.

Sicrhau nad yw amgylchedd gwaith y staff ar rheini sy'n defnyddio'r adeilad o unrhyw berygl i iechyd a diogelwch.

Atal y defnydd o unrhyw offer a ystyrir yn anniogel a thynnu sylw at unrhyw amgylchedd gwaith a ystyrir yn anniogel.

Datrys unrhyw gwynion ynglyn ag iechyd a diogelwch gan gynnwys, lle bo'n briodol, tynnu sylw'r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch at y fath gwynion.

Tynnu sylw'r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch at yr angen i hyfforddi unrhyw aelod o'i staff.

Cofnodi pob damwain sy'n digwydd yn yr ardaloedd o dan ei rheolaeth ar ffurflen Cofnodi Damwain y Coleg sydd ar gael yn y swyddfeydd cyffredinol a'i dychwelyd at yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch.

Sicrhau bod y Blychau Cymorth cyntaf sydd yn yr ardaloedd o dan ei gofal yn eu lle, ac yn cynnwys stoc addas a digonol.

Ymgymryd ag asesiadau risg yn y gweithle yn unol â Rheoliadau Rheolaeth o Iechyd a diogelwch yn y Gwaith ynghyd a'r asesiadau sy'n ofynnol tan y rheoliadau canlynol:-

Rheolaeth o Sylweddau Peryglus i Iechyd.
Gweithrediadau Trafod a Llaw.

Offer Amddiffynnol Personol yn y Gwaith.
Swn yn y Gwaith.
Y Ddarpariaeth ar Defnydd o Offer Gwaith.
Iechyd y Gweithle, Diogelwch a Lles.
Iechyd a Diogelwch (Offer Sgrin i Arddangos)

Ymgymryd ag unrhyw asesiadau risg yn y gweithle a ystyrir yn briodol o dan yr holl ddeddfwriaeth arall sy’n ymwneud a Iechyd a Diogelwch.

**Pob Aelod Arall o Staff.**

Gweithredu’r cyfarwyddiadau ar cyngor ynglyn ag amodau gwaith diogel bob amser.

Sicrhau na fydd neb yn ymgymryd â gwaith mewn dull a fydd yn achosi perygl iddynt eu hunain, i gydweithwyr ac unrhyw berson sy’n mynychu neu’n ymweld a’r adeilad.

Defnyddio a sicrhau bod eraill yn defnyddio’r dillad ar offer amddiffynnol angenrheidiol a sicrhau bod y fath offer a dillad yn cael ei gadw mewn cyflwr glan ac addas i’w ddefnyddio.

Tynnu sylw at yr holl offer ar amgylcheddau gwaith a ystyrir i fod yn anniogel.

Cofnodi pob damwain sy’n digwydd iddynt hwy ac i’r myfyrwyr o dan eu rheolaeth ar Ffurflen Gofnodi Damweiniau’r Coleg a throsglwyddo’r wybodaeth yma i’r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch.

**Myfyrwyr**

Cydymffurfio a’r holl drefniadau neu’r gweithdrefnau iechyd a diogelwch sefydlog, ynghyd a chyfarwyddiadau a chyngor oddi wrth staff ynglyn a materion iechyd a diogelwch.

Sicrhau na fydd unrhyw un yn ymgymryd â gwaith mewn dull fydd yn achosi perygl iddynt eu hunain, cyd-fyfyrwyr, staff neu unrhyw berson sy’n mynychu neu’n ymweld ar adeilad.

Tynnu sylw at yr holl offer ar amgylcheddau gwaith a ystyrir i fod yn anniogel.

Cofnodi pob damwain iddynt eu hunain ac i fyfyrwyr eraill.

Gwaherddir ymyrryd ag unrhyw drefniadau neu weithdrefnau iechyd a diogelwch.

**Yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch**

Sicrhau bod trefniadau ar gyfer ymateb i Gymorth Cyntaf yn bodoli. Bydd ef/hi yn sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o bob damwain a bydd adroddiadau’n cael eu cyflwyno i’r Gweithgor Iechyd

a Diogelwch a'r Pennaeth fel bo'n briodol.

Sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer Cymorth cyntaf/Damweiniau yn eu lle ac yn hysbys i'r holl staff a myfyrwyr. Bydd ef/hi yn cynnal ymchwiliadau i ddamweiniau ac yn adrodd fel bo'n briodol. Yn ogystal, bydd yn sicrhau bod yr awdurdodau gorfodi priodol yn derbyn gwybodaeth am ddamweiniau sy'n ofynnol rhoi gwybodaeth iddynt amdanynt.

Bydd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn monitro'r gweithrediad o'r polisi ac yn cyflwyno adroddiadau i'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch neu'r Pennaeth fel bo'n briodol.

Bydd yr Ymgynghorydd Iechyd a diogelwch yn adolygu'r polisi diogelwch ac yn gwneud awgrymiadau i'r Pennaeth ynglyn a diwygio. Bydd ef/hi yn sicrhau bod copïau ar gael er mwyn i'r holl staff gyfeirio atynt.

Er mwyn sicrhau safonau derbyniol o iechyd a diogelwch a lles, bydd y Coleg yn chwilio am gyngor allanol cymwys oddi wrth unrhyw ffynonellau sydd ar gael.

Bydd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn sicrhau bod gweithdrefnau gwagio mewn argyfwng yn eu lle ac yn cael eu profi'n rheolaidd.

Bydd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn cydweithio a'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch a staff eraill er mwyn cyflawni'r amcanion a fynegi'r yn y polisi yma.

Bydd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn arolygu pob gweithle, offer a dulliau o weithio ac yn cyflwyno adroddiadau i'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch a'r Pennaeth fel bo'n briodol.

Bydd gan yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yr awdurdod i derfynu unrhyw waith os ystyrir bod yna risg arwyddocaol ar y pryd i iechyd, diogelwch, neu les. Ni ymgymerir ar cam yma heb ymgynghori ymlaen llaw gyda'r Pennaeth cynorthwyol priodol neu Bennaeth Ysgol heblaw bod y risg ar ddigwydd ac felly yn atal ymgynghori o'r fath.

Bydd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn sicrhau bod gweithdrefnau manwl wedi eu sefydlu er mwyn medru delio'n briodol gyda phartïon penodol, digwyddiadau posibl neu amgylchiadau.

**Cyffredinol**

Fel rhan o'i hyfforddiant anwytho, bydd copi o'r datganiad yma ar gael ar gyfer yr holl staff, ac fe amlygir unrhyw newidiadau a gytunwyd.

Tynnir sylw pob myfyriwr at y ddogfen bolisi yma yn ystod eu hyfforddiant amwytho yn y Coleg, a bydd copïau cyfeirnod ar gael ar bob safle.

Arddangosir copïau o'r polisi yma mewn sefyllfaoedd amlwg ar bob safle.

Awdurdodwyd atodiadau i'r polisi yma yn y meysydd canlynol oherwydd eu peryglon unigryw:-

Theatr Hafren

Fferm Fronlas

**TREFNIADAU**

Bwriad Coleg Powys yw sicrhau safon uchel o iechyd a diogelwch ym mhob adeilad. Mae'n ofynnol i bob gweithiwr, myfyriwr, ymwelwyr a chontractwyr gyflawni eu gweithgareddau mewn ffyrdd diogel er mwyn sicrhau nid yn unig eu hiechyd, diogelwch a lles eu hunain ond yn ogystal iechyd, diogelwch a lles pawb arall.

Amlinellir y gweithdrefnau ar gofynion i gyflawni hyn yn yr adran yma o'r polisi.

## 1. Rheolaeth o Iechyd a Diogelwch

Mae Coleg Powys yn rhwymedig i reoli iechyd a diogelwch ar draws y sefydliad. Cyflawnir hyn trwy sicrhau cydymffurfiad gyda'r ddeddfwriaeth berthnasol sydd mewn grym, megis Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Rheoliadau Rheolaeth Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1992 ac unrhyw welliannau dilynol. Y prif offeryn i sicrhau bod Coleg Powys yn rheoli iechyd a diogelwch yn ddigonol yw ei gyfres o ffurflenni Iechyd a Diogelwch. Mae'r Coleg yn anelu at leihau pob risg i'r lefel dderbyniol iselaf. Pan na fydd yn bosib cyflawni hyn bydd y Coleg yn gweithio i sicrhau bod rheolaeth ddigonol o'r risgiau.

Bydd systemau iechyd a diogelwch Coleg Powys yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch neu un o'r gweithwyr dynodedig. Bydd yr adolygu ar ffurf arolygiadau ac archwiliadau.

## 2. Gweithleoedd

Bydd Coleg Powys yn anelu i sicrhau bod darpariaeth o weithleoedd diogel ar gyfer yr holl weithwyr, myfyrwyr, contractwyr ac ymwelwyr. Yn unol ar ddeddfwriaeth berthnasol, bydd Coleg Powys yn darparu mynedfeydd, ac allanfeydd, safle gwaith diogel, lefelau uchel o lendid ac ati, gwresogi, gwyntyllu a goleuo.

## 3. Peiriannau

Bydd Coleg Powys yn darparu cyn belled ag y sydd yn rhesymol offer diogel ac yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio a deddfwriaeth berthnasol megis Rheoliadau'r Ddarpariaeth ar Defnydd o Offer Gwaith 1998. Bydd yr holl beiriannau a ddarperir ar gyfer defnydd yn y gwaith yn addas ar gyfer y dasg ac yn cael eu cynnal yn dda. Bydd yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â'u defnydd wedi eu hasesu a rheolaethau wedi eu gosod yn eu lle. Yn ogystal bydd gweithwyr sy'n defnyddio'r peiriannau yn derbyn gwybodaeth ddigonol, hyfforddiant a goruchwyliaeth.

## 4. Trafod a llaw a throsglwyddo

Bydd Coleg Powys yn sicrhau diogelwch gweithwyr mewn perthynas ar ddefnydd, trafod a llaw, y trawsgludant a'r storio o nwyddau a sylweddau. Yn ogystal bydd y Coleg yn sicrhau na fydd unrhyw risg i iechyd wrth gyflawni'r dyletswyddau a nodwyd. Lle bo'n ymarferol i wneud hynny fe ddileu'r arfer o drafod gyda llaw yn gyfan gwbl. Lle na fydd yn bosibl gwneud hynny, asesu'r pob risg sy'n berthnasol i drafod gyda llaw a'i lleihau i lefel dderbyniol. Gosodir mesurau rheoli yn eu lle ac fe roddir gwybodaeth, hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol i'r gweithwyr.

**5. Swn**

Bydd Coleg Powys yn asesu lleoliadau swnllyd yn unol â Rheoliadau Swn yn y Gwaith 1989 ac yn sefydlu dulliau rheoli trawiadol.

**6. Trydan**

Bydd Coleg Powys yn anelu i ddarparu offer a gosodiadau trydanol na fydd o unrhyw risg i iechyd. Bydd yr offer trydanol yn cael ei gynnal i safon uchel a bydd yr holl offer trydanol cludadwy yn cael ei brofi ar adegau penodol er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn rhydd o unrhyw risgiau.

**7. Sylweddau Niweidiol**

Bydd Coleg Powys yn unol â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Niweidiol i Iechyd 1994, yn sicrhau bod asesiadau risg digonol wedi eu cyflawni ar yr holl sylweddau a ddefnyddir yn y Sefydliad.

Hysbysir y bobl briodol o ganlyniadau'r asesiad risg ac fe roddir mesuriadau rheoli yn eu lle i sicrhau na fydd gweithwyr, myfyrwyr, contractwyr ac ymwelwyr yn agored i unrhyw risgiau annerbyniol. Dosberthir offer amddiffyn personol lle bo'r angen ond fe ystyrir hyn fel y lefel isaf o reolaeth yn yr hierarchaeth o fesurai rheoli.

**8. Systemau diogel o weithio**

Bydd yr holl waith a gyflawnir gan y sefydliad yn cael ei gyflawni mewn ffordd ddiogel er mwyn sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, absenoldeb o risg i iechyd. Creu'r systemau diogel o weithio ac fe'i cyhoeddir ar gyfer y tasgau sydd eu hangen. Bydd y systemau diogel o weithio yn gysylltiedig ar asesiadau risg sydd eisoes wedi eu cyflawni ar y tasgau.

**9. Damweiniau ac Argyfwng**

Mae polisi Damweiniau ac Argyfwng y Coleg yn rhoi cyfarwyddiadau ynglyn a gweithredu mewn achos o ddamwain neu argyfwng. Bydd y Coleg yn ymdrechu i gydymffurfio a gofynion Rheoliadau Riportio Niwediadau Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 1995.

Mae darpariaeth Cymorth Cyntaf ddigonol ar gael ac fe arddangosir hysbysiadau sy'n rhoi gwybodaeth am ymarferwyr cymorth cyntaf yn y gwahanol rannau o'r adeiladau ar yr hysbysfyrddau yn yr adeiladau.

**10. Offer Amddiffyn Personol**

Pan fydd asesiad o risg yn amlygu'r angen am Offer Amddiffyn Personol bydd y Coleg yn darparu'r offer amddiffyn priodol.

**11. Offer Sgrin i Arddangos**

Bydd Coleg Powys yn ymdrechu i gydymffurfio a'r Rheoliadau Iechyd a Diogelwch Offer Sgriniau I Arddangos 1992. Cyflawnir asesiad o weithfan pob defnyddiwr (yn unol â diffiniad Coleg Powys o ddefnyddiwr) ac fe osodir mesuriadau rheoli trawiadol yn eu lle i reoli unrhyw risgiau a amlygir**.**

## 12. Rhagofalon Tân

Mae gan Goleg Powys bolisi Gwagu Tân mewn bodolaeth ar gyfer pob safle. Y polisi yma yw'r sail i'r strategaeth rhagofalon tân y Sefydliad. Bydd y Coleg yn cynnal ymarfer tân yn rheolaidd, ac yn ogystal, yn sicrhau bod unrhyw offer darganfod tân yn cael ei gynnal i lefel uchel a'i gadw'n gweithio yn effeithiol.

## 13. Gofal Iechyd

Bydd y Coleg yn sicrhau ei fod yn darparu cyfleusterau lles digonol ar gyfer gweithwyr, myfyrwyr, contractwyr ac ymwelwyr.

Mae Coleg Powys hefyd yn gweithredu polisi Sgrinio Iechyd.

# TREFNIADAETH IECHYD A DIOGELWCH

## CORFFORAETH COLEG POWYS

**Y Pennaeth**
J. L. Stephenson

**Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch**
S. Pinner

**Cymorth Cyntaf**
Brecon - C. Cook
Llandrindod - M. Bynham
Newtown - A. Kenyon

**Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch ar y Safleoedd**

Aberhonddu - K. Corson
Llandrindod - K. Corson
Y Drenewydd - L. Davies

**Swyddogion Gwagu Mewn Argyfwng**
Aberhonddu - S. Pinner
Llandrindod - M. Baynham
Y Drenewydd - S. Doodson
- R. Denham

**Gweithgorau Iechyd a Diogelwch**
Aberhonddu
Llandrindod
Y Drenewydd

**Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol**
**Mr. E. Gwillim**
**Penaethiaid Cynorthwyol**
S. Pinner, S. Hill, B. Dhillon, S. Doodson, I. Millward

**Penaethiaid Ysgolion a Staff Goruchwyliol**

**Staff Gweinyddol – Darlithwyr – Staff Cefnogi**

**Myfyrwyr**